Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

## Tuag at Ddemocratiaeth Ffyniannus yng Nghymru

Adroddiad Cynnydd

Mawrth 2026

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd 3

Crynodeb Gweithredol 5

1. Cyflwyniad 6

2. Sylfeini ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru 9
   - 2.1 Gweledigaeth o'r ddemocratiaeth rydym yn anelu ati yng Nghymru 9
   - 2.2 Arweinyddiaeth gryfach i sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru 11
   - 2.3 Strategaeth ar gyfer democratiaeth yng Nghymru 13
   - 2.4 Creu'r amodau a'r diwylliant mewn sefydliadau i ddemocratiaeth Cymru ffynnu 16
   - 2.5 Addysg am ddemocratiaeth sy'n arfogi pobl ifanc i gymryd rhan yn nemocratiaeth Cymru 19
   - 2.6 Sicrhau bod pawb yn gallu deall ac ymarfer democratiaeth drwy gydol eu hoes 21

3. Egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant Cymru 23

4. Casgliad 24

Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth 25

Atodiad 2: Aelodau'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth 26

Atodiad 3: Cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth 27

Atodiad 4: Darparwyr tystiolaeth a roddodd gyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth 28


OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54026, ISBN argraffu 978-1-83745-293-4, ISBN digidol 978-1-83745-294-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair y Cadeirydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae aelodau'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth wedi gweithio gydag egni, ffocws ac ymrwymiad i edrych ar sut y gellir cefnogi ein democratiaeth yng Nghymru i ffynnu ar adeg o her a chyfle gwirioneddol. Ar draws pob trafodaeth, a chan bob cyfrannwr, mae un neges wedi bod yn gyson: mae angen i Gymru fuddsoddi i gryfhau ei democratiaeth – drwy sicrhau bod pawb yn deall ac yn teimlo'n rhan o'n system ddemocrataidd, drwy roi pobl wrth galon y broses o wneud penderfyniadau, a thrwy arfogi sefydliadau gwleidyddol a sefydliadau cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth ddilys â'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu.

Roedd gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn pwysleisio maint yr her hon a'r angen brys am hyn. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn dangos yn glir bod pobl yn awyddus i wybod mwy, a'u bod yn gwerthfawrogi bod yn rhan pan fyddan nhw'n teimlo bod eu cyfraniadau'n bwysig. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y sylfaen honno. Mae'n adlewyrchu'r hyn rydym wedi'i glywed, yn ogystal hefyd â'r hyn y credwn y mae angen i Gymru ei wneud yn awr i adfywio a diogelu ei system ddemocrataidd ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Ar draws cymdeithas ddinesig yng Nghymru, mae gwaith pwysig eisoes yn digwydd, ac mae cefnogaeth eang i'r cyfeiriad a nodir yn yr adroddiad hwn. Ein huchelgais yw cael democratiaeth yng Nghymru lle mae pobl yn deall sut mae'r system yn gweithio, yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan a bod croeso iddyn nhw wneud hynny, a'u bod yn cael cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at wleidyddiaeth ddemocrataidd rhwng etholiadau. Mae cyflawni hyn yn agenda hirdymor. Mae'n gofyn am arweinyddiaeth gref a strategol, ymrwymiad i gael gwared ar y rhwystrau strwythurol rhag cyfranogiad democrataidd, newidiadau diwylliannol a strwythurol ar draws y llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach, a chefnogaeth i ecosystem ddemocrataidd ehangach o fewn cymdeithas ddinesig. Mae hefyd yn gofyn am weithio mewn partneriaeth, i gyd-ddatblygu atebion gyda'r rheini y mae unrhyw benderfyniadau a wnawn yn effeithio arnyn nhw.

Mae ein hadroddiad yn nodi'r hyn y credwn y gellir ei wneud yn awr, ochr yn ochr â meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith. Er bod yr adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn unol â chylch gwaith y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (IDAG) fel grŵp cynghori a sefydlwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog, mae'n cydnabod bod cyflawni newid democrataidd yn gofyn am weithredu cydlynol ar draws system ddemocrataidd ehangach Cymru. Mae'r cyfrifoldeb dros weithredu yn cael ei rannu ar draws y Senedd, llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus, cymdeithas sifil, a thu hwnt.

Mae hon yn foment sy'n gofyn am uchelgais ac arweinyddiaeth. Bydd pwy bynnag fydd yn ffurfio'r Llywodraeth nesaf yn etifeddu'r her a'r cyfle i adfywio bywyd democrataidd Cymru. Mae ein gwaith yn dangos bod gwir awydd ymysg pobl, ymarferwyr a sefydliadau i wneud pethau'n wahanol. Y dasg nawr yw troi'r awydd hwnnw'n weithredu ac yn gynnydd.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Grŵp, i'r rhai a gyfrannodd dystiolaeth, ac i'r ysgrifenyddiaeth, am eu cefnogaeth amhrisiadwy. Mae eu hymrwymiad, eu dirnadaeth a'u cymwynasgarwch wedi siapio'r adroddiad hwn ac wedi cryfhau ei argymhellion. Gobeithio y bydd yn gyfraniad adeiladol a blaengar at ddyfodol democrataidd Cymru.

Wrth i'r gwaith hwn symud i'w gam nesaf, mae'r Grŵp yn gobeithio parhau i gyfrannu at yr ymdrech ar y cyd i gryfhau democratiaeth yng Nghymru, ac mae'n annog y rheini sy'n gyfrifol am system ddemocrataidd Cymru i fwrw ymlaen â'r agenda hon ar fyrder ac yn benderfynol.



**Dr Anwen Elias**
Cadeirydd
Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi uchelgais y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (IDAG) ar gyfer **democratiaeth ffyniannus yng Nghymru**. Mae hyn yn golygu Cymru lle mae pawb yn deall eu hawliau democrataidd a sut mae'r system yn gweithio, yn siapio penderfyniadau'n rheolaidd ar bob lefel, yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli a bod rhywun yn gwrando arnyn nhw, a'u bod yn well eu byd o ganlyniad. Mae cyflawni'r uchelgais hwn yn rhan greiddiol o wella bywydau pobl, adennill ffydd yn y llywodraeth, a sicrhau dyfodol gwell i bobl Cymru.

Mae dau gwestiwn sylfaenol wedi llywio gwaith IDAG:

1. *Sut gall pawb yng Nghymru deimlo'n rhan o'r system ddemocrataidd a gallu cyfrannu ati?*
2. *Sut y gallwn greu partneriaeth ddilys a pharhaol rhwng pobl a'r sefydliadau democrataidd a'r cynrychiolwyr etholedig sy'n eu gwasanaethu?*

I ateb y cwestiynau hyn, mae IDAG wedi canolbwyntio ar ddau faes blaenoriaeth. **Addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth** – sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth a'r sgiliau i wybod a deall sut mae democratiaeth yn gweithio ac i gymryd rhan yn hyderus o oedran ysgol drwy gydol eu hoes. A **chynnwys y cyhoedd rhwng etholiadau** – rhoi rôl ystyrlon i bobl wrth lunio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ar sail canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith hyd yma, rydym yn galw am y canlynol:

- **Gweledigaeth gyffredin, glir ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru** – egluro'r hyn rydym yn anelu ato a pham mae angen hynny, gan gysylltu addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau, a chyfranogiad etholwyr fel sylfeini ein system ddemocrataidd.
- **Arweinyddiaeth gref ar draws sefydliadau** – gan gynnwys cyfrifoldeb gweinidogol cliriach dros ddemocratiaeth Cymru yn Llywodraeth Cymru, ac arweinyddiaeth ymrwymedig gan Senedd Cymru, awdurdodau lleol, a chymdeithas ddinesig.
- **Strategaeth hirdymor ar gyfer y system gyfan** – integreiddio addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd ac etholiadau, wedi'u cydlynu ar draws lefelau cenedlaethol, lleol, a chymunedol.
- **Gallu a diwylliant cefnogol mewn sefydliadau** – cryfhau sgiliau a meddylfryd y llywodraeth, y Senedd, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus fel bod cynnwys pobl mewn penderfyniadau yn dod yn norm.
- **Addysg gyson ac o ansawdd uchel am ddemocratiaeth i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau** – gwell canllawiau ar y Cwricwlwm i Gymru, hyfforddiant gwell i athrawon, a mynediad cyfartal at adnoddau o ansawdd uchel a chyfleoedd i ymarfer democratiaeth.
- **Mynediad gydol oes at wybodaeth am sut mae democratiaeth yng Nghymru yn gweithio** – mentrau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned a llwyfannau gwybodaeth am ddemocratiaeth y gall pawb gael gafael arnyn nhw a'u deall.

Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn cynghori y dylai unrhyw gamau i **ddatblygu datganiad ffurfiol o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant i Gymru aros nes bydd yr angen am ddatganiad o'r fath, a phwrpas y datganiad hwnnw, wedi'i ddiffinio'n glir**. Yn olaf, **mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith a ddechreuwyd gan IDAG yn parhau y tu hwnt i wanwyn 2026**, i gefnogi cynnydd a chynnal momentwm ar gyfer newid democrataidd yng Nghymru.

# 1. Cyflwyniad

Wrth i ni nesáu at gyfnod etholiadau Senedd Cymru ym mis Mai 2026, mae'n gyfle da i bwyso a mesur ein democratiaeth yng Nghymru. Mae Cymru eisoes wedi rhoi blociau adeiladu pwysig ar waith ar gyfer system ddemocrataidd ymatebol sy'n ymgysylltu. Mae diwygiadau i sut mae'r Senedd yn cael ei hethol yn seiliedig ar ymdrech sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf i gynyddu ymgysylltiad etholwyr ar draws cymdeithas Cymru. Rhwng etholiadau, cafwyd ymrwymiad hirdymor i weithio mewn partneriaeth â phobl a chymunedau i drafod y materion sy'n bwysig iddyn nhw a datblygu atebion i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu. Mae'r dull Cymreig unigryw hwn o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Ac eto, mae heriau'n parhau. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yn dewis peidio â gwneud.[1] Mae mwy i'w wneud o hyd i wella llesiant pobl Cymru,[2] ac mae llawer o bobl yng Nghymru yn teimlo nad yw'r system ddemocrataidd yn gwella eu bywydau.[3] Mae lefelau ffydd mewn llywodraeth ddatganoledig a gwleidyddion yn isel, ac mae llawer yn teimlo nad oes ganddyn nhw fawr ddim dylanwad, os o gwbl, dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.[4] Os nad oes ffydd mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd, mae perygl y bydd hyn yn ysgogi ymddieithrio a pholareiddio yn ein cymunedau ac ar eu traws.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi uchelgais ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru sy'n gallu mynd i'r afael â'r heriau polisi rydym yn eu hwynebu, sicrhau canlyniadau gwell i bobl a chymunedau, ac adennill ffydd mewn sefydliadau democrataidd.

## Sut beth fyddai democratiaeth ffyniannus yng Nghymru?

**Byddai'n ddemocratiaeth lle mae pawb yn gwybod beth yw eu hawliau democrataidd, pwy sy'n eu cynrychioli, a sut mae'r system yn gweithio. Lle mae pobl yn cael cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ar bob lefel o lywodraeth ac yn eu cymunedau. Lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli, bod rhywun yn gwrando arnyn nhw, a bod ganddyn nhw ffydd yn y bobl a'r prosesau sy'n gwneud i'w democratiaeth weithio. A lle mae pobl yn teimlo bod eu bywydau'n well o ganlyniad.**

Nod yr uchelgais hwn ar gyfer democratiaeth yng Nghymru yw ategu democratiaeth gynrychioladol, drwy wella'r cyfleoedd i bobl ledled Cymru weithio mewn partneriaeth â chynrychiolwyr etholedig a sefydliadau. Mae democratiaeth yn cael ei chryfhau pan fydd pobl, cymunedau a gwleidyddion yn gweithio gyda'i gilydd, a phan fydd pŵer yn cael ei rannu go iawn fel bod modd defnyddio barn y cyhoedd, gyda'i gilydd, am y materion polisi allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae dwy ran i'r her o wneud hynny: sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth arweinwyr gwleidyddol ac uwch

---

1 Ymchwil y Senedd (2021), *Etholiad 2021: faint o bobl bleidleisiodd?* www.ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/etholiad-2021-faint-o-bobl-bleidleisiodd

2 Llywodraeth Cymru (2022), *Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol* www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol

3 Carnegie UK (2025), *Life in the UK: Wales 2025* www.carnegieuk.org/wp-content/uploads/2025/10/Carnegie-UK-Life-in-the-UK-Wales-2025.pdf; Llywodraeth Cymru (2024), *Casglu barn y cyhoedd: opsiynau* www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-01/casglu-barn-y-cyhoedd-opsiwn.pdf

4 Carnegie UK (2025), *Life in the UK: Wales 2025* www.carnegieuk.org/wp-content/uploads/2025/10/Carnegie-UK-Life-in-the-UK-Wales-2025.pdf; Llywodraeth Cymru (2022), *Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol* www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol

swyddogion i fwrw ymlaen â'r newidiadau sydd eu hangen arnom er mwyn i ddemocratiaeth yng Nghymru ffynnu, a dileu'r rhwystrau strwythurol sy'n ei gwneud yn anoddach i'r rheini sydd bellaf oddi wrth bŵer gymryd rhan yn ein system ddemocrataidd.

Yn ein gwaith hyd yma, mae'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth (IDAG) wedi blaenoriaethu dau gwestiwn sydd, yn ein barn ni, yn sylfaen i ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru:

1. *Sut gall pawb yng Nghymru deimlo'n rhan o'r system ddemocrataidd, gallu cyfrannu drwy'r system honno, a chael dweud eu dweud ynddi?*

2. *Sut gallwn greu partneriaeth ddilys a pharhaol rhwng pobl yng Nghymru, a'r sefydliadau democrataidd a'r cynrychiolwyr etholedig sy'n eu gwasanaethu?*

Wrth ateb y cwestiynau hyn, rydym wedi canolbwyntio ar ddau faes ymchwilio sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

**Addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth**, hynny yw, yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau y mae angen i bobl eu cael i gymryd rhan yn hyderus yn y system ddemocrataidd. I gymryd rhan mewn democratiaeth, rhaid i bobl ddeall sut mae'r system yn gweithio. Rhaid iddyn nhw gael mynediad at wybodaeth glir a diduedd a chyfleoedd ystyrlon i ymarfer sgiliau democrataidd a dylanwadu ar benderfyniadau – drwy gydol eu hoes, nid dim ond adeg etholiad.

**Cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau**, hynny yw, galluogi pobl y mae penderfyniad yn effeithio arnyn nhw i weithio gyda'i gilydd i ddeall y materion sydd yn y fantol a chwilio am atebion posibl. Mae mwy a mwy o dystiolaeth ryngwladol y gall cynnwys y cyhoedd yn ystyrlon yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau ddatgloi gwahanol syniadau polisi, helpu i lywio materion sy'n peri rhwyg, a meithrin dilysrwydd ar gyfer gweithredu cynigion polisi yn fwy effeithiol. Rhaid i gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau fod yn fwy na dim ond hysbysu pobl a chymryd rhan mewn ymgynghoriad; er bod lle i'r rhain, anaml y byddan nhw'n ddigonol, ac maen nhw'n cael eu gorddefnyddio'n sylweddol. Bydd cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn edrych yn wahanol hefyd ar gyfer gwahanol benderfyniadau a chymunedau: mae'n golygu bod sefydliadau yn cefnogi cymunedau i gymryd eu camau gweithredu eu hunain, a chydweithio â'r cymunedau hynny i lunio polisïau a strategaethau.

Wrth archwilio'r meysydd ymchwilio hyn, rydym wedi ceisio cydweithio i nodi cyfleoedd a chyfyngiadau ar gyfer newid, i ddysgu o brofiadau rhyngwladol, ac i ddechrau adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer atebion posibl a'r camau nesaf. Mae ein canfyddiadau hyd yma yn cyfeirio at gyfeiriad clir os ydym am wireddu ein huchelgais ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru sy'n gwella bywydau pobl Cymru ac yn ail-adeiladu ffydd yn ein sefydliadau democrataidd.

### Mae ar Gymru angen:

- **Gweledigaeth glir ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.**
  Mae angen i ni gael cyd-ddealltwriaeth o'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni, a naratif grymus i esbonio pam mae hyn yn bwysig. Gweledigaeth gyfannol sy'n ymrwymo i addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau, a chyfranogiad etholwyr fel y sylfeini ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.

- **Arweinyddiaeth wleidyddol a gweinyddol gref ar draws ein system ddemocrataidd i gyflawni'r weledigaeth ddemocrataidd i Gymru.**
  Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb gweinidogol cliriach dros ddemocratiaeth yng Nghymru yn Llywodraeth Cymru, ac arweinyddiaeth ymrwymedig gan Senedd Cymru, awdurdodau lleol, a chymdeithas ddinesig i gyflawni ein huchelgais am ddemocratiaeth sy'n gwneud bywyd yn well i bobl Cymru.
- **Strategaeth hirdymor i'r system gyfan ar gyfer ein democratiaeth.**
  Mae sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn gofyn am fframwaith strategol hirdymor sy'n integreiddio addysg am ddemocratiaeth a chynnwys y cyhoedd ochr yn ochr â chyfranogiad etholwyr, ac sy'n cydlynu camau gweithredu ar draws lefelau cenedlaethol, lleol a chymunedol.
- **Cefnogi diwylliannau ac amodau mewn sefydliadau er mwyn prif ffrydio cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.**
  Mae hyn yn cynnwys cryfhau capasiti a gallu yn Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a sefydliadau partner, i gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau fel ffordd safonol o weithio. Mae hefyd yn gofyn am gyd-ddatblygu cynigion i newid meddylfryd, strwythurau ac arferion gyda gwleidyddion, swyddogion a chymdeithas sifil ar lefelau cenedlaethol a lleol.
- **Dylai pob person ifanc mewn ysgolion a cholegau gael addysg am ddemocratiaeth sy'n rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnyn nhw i gymryd rhan yn y system ddemocrataidd.**
  Mae cyflawni'r uchelgais hwn yn gofyn am gydweithio ar draws y system addysg i weld beth yw'r ffordd orau o ddarparu canllawiau cliriach o fewn y Cwricwlwm i Gymru, cryfhau arweinyddiaeth a hyfforddiant athrawon, gwella cydlyniad ar draws sectorau, a darparu mynediad cyfartal at ddysgu drwy brofiad, arferion da, ac adnoddau o ansawdd uchel.
- **Dylai gwybodaeth am sut mae democratiaeth yng Nghymru yn gweithio fod ar gael yn rhwydd i bob person yng Nghymru drwy gydol ei oes**.
  Mae angen cydweithio â phartneriaid perthnasol i fapio a gwerthuso'r gweithgarwch presennol, cyd-ddatblygu atebion sy'n cael eu hariannu'n gynaliadwy ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac adolygu sut mae llwyfannau presennol ar gyfer gwybodaeth am ddemocratiaeth yn helpu'r cyhoedd i ddeall.

Ochr yn ochr â hynny, mae IDAG hefyd wedi dechrau gwaith i fwrw ymlaen ag Argymhelliad 2 y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan edrych ar sut mae modd cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddatblygu datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant. Rydym yn dod i'r casgliad canlynol:

> *Mae angen eglurder ynghylch yr angen am ddatganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant ar gyfer Cymru, a phwrpas datganiad o'r fath, cyn ystyried a allai dinasyddion fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu datganiad o'r fath a sut.*

Mae democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn gofyn am ymdrech gydweithredol gan ein holl bleidiau gwleidyddol, sefydliadau gwleidyddol cenedlaethol a lleol, cymdeithas sifil, a chymunedau. Mae hon yn agenda hirdymor ar gyfer newid democrataidd – nid fel rhywbeth 'braf i'w gael', ond fel ffordd greiddiol i sefydliadau democrataidd allu darparu gwerth yn well a gwella bywydau pobl.

Mae IDAG wedi dechrau ar y gwaith o fapio llwybr tuag at ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru, ac mae canfyddiadau ein gwaith hyd yma yn nodi'r camau nesaf a all ein symud tuag at y nod hwn. Rydym hefyd yn gweld gwerth mewn IDAG (neu gorff arbenigol tebyg) fel ffordd o ddarparu arbenigedd a chyngor parhaus i gefnogi'r gwaith hwn:

> *Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith a ddechreuwyd gan IDAG yn parhau y tu hwnt i wanwyn 2026, i gefnogi cynnydd tuag at ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru.*

# 2. Sylfeini ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru

Fel sail i'w waith, mae IDAG wedi defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau, ymarferwyr ac arbenigwyr. Mae hyn wedi cynnwys y rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ac ysgolion, darparwyr addysg am ddemocratiaeth, arbenigwyr ym maes cyfranogiad, a chynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldebau dros ymgysylltu democrataidd. Mae IDAG hefyd wedi clywed gan academyddion, newyddiadurwyr ac arbenigwyr ym maes cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi cynnig safbwyntiau ehangach ar y ffactorau ehangach sy'n llywio addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, a chynnwys y cyhoedd yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r mewnbwn amrywiol hwn wedi helpu IDAG i feithrin dealltwriaeth well o'r dirwedd bresennol, y rhwystrau a'r cyfleoedd ar gyfer symud ymlaen gyda newid democrataidd, ac atebion posibl ar gyfer sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.

## 2.1 Gweledigaeth o'r ddemocratiaeth rydym yn anelu ati yng Nghymru

### Am beth rydym yn galw

Mae angen gweledigaeth glir o'r ddemocratiaeth ffyniannus rydym yn anelu ati yng Nghymru, sy'n rhoi blaenoriaeth i addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau, a chymryd rhan mewn etholiadau.

Rhaid i'r weledigaeth hon gyfleu'n glir pam mae'r holl ddimensiynau hyn yn bwysig i'n democratiaeth, a nodi'r achos dros yr hyn y bwriedir i'r weledigaeth ei gyflawni. Dylid cyflwyno'r achos dros ddemocratiaeth ffyniannus ar y sail bod cyhoedd hyddysg a gwybodus sy'n cymryd rhan ac sy'n ymgysylltu, yn hanfodol i wella syniadau a chanlyniadau polisi ac i adennill ffydd mewn sefydliadau democrataidd.

Ochr yn ochr â'r weledigaeth hon, mae angen naratif cyffredin i gyflwyno'r achos dros pam mae democratiaeth ffyniannus yn bwysig – wedi'i fynegi drwy stori gydlynol sy'n cysylltu uchelgais democrataidd cyffredinol â nodau ein sefydliadau democrataidd wrth lunio polisïau.

Rydym wedi dechrau nodi gweledigaeth o'r fath yn y Cyflwyniad i'r adroddiad hwn. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y gwaith o ddatblygu'r weledigaeth hon ymhellach ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol gwleidyddol, cyhoeddus a chymunedol i sicrhau ymrwymiad ar draws cymdeithas Cymru. Dylai'r gwaith hwn ganolbwyntio ar y canlynol:

- profi a mireinio'r weledigaeth hon, a nodi'r egwyddorion a'r gwerthoedd allweddol sy'n sail i ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru
- datblygu a chyfleu naratif grymus i yrru agenda diwygio democrataidd uchelgeisiol yn ei blaen yng Nghymru.

Rhaid i weledigaeth rymus, gyffredin ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru fod yn fan cychwyn ar gyfer yr arweinyddiaeth gref, y dull gweithredu strategol newydd, y newid mewn diwylliant ac amodau, a'r addysg a'r wybodaeth gryfach am ddemocratiaeth rydym yn galw amdanyn nhw isod.

## Pam mae angen hyn

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed o astudiaethau achos mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol yn gyson: mae mentrau i wreiddio cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn tueddu i oroesi pan fydd gan sefydliadau democrataidd yr un diben democrataidd cyffredinol – ymdeimlad clir o pam mae cyfranogiad yn bwysig a'r hyn y bwriedir iddo ei gyflawni.[5] Mae ein gweledigaeth ar gyfer Cymru hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol – mae hefyd yn rhagweld y bydd gan bawb yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan yn ein democratiaeth pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny.

Mae gweledigaeth glir a grymus yn cynnig cyfeiriad hirdymor ac yn rhoi ymdeimlad o bwrpas ar draws cyfranogwyr gwleidyddol a gweinyddol. Mae hefyd yn sail i ddatblygu'r naratif sy'n diffinio addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, a chynnwys y cyhoedd, fel agweddau dilys a gwerthfawr ar lywodraethiant – ochr yn ochr â chyfranogiad etholwyr.

Yn y cyd-destun hwn, mae modd deall naratif fel y straeon sy'n cylchredeg o fewn sefydliadau, ac sy'n siapio ymdeimlad pawb o beth yw hanfod y sefydliad. Rydym wedi clywed bod naratif grymus yn siapio dealltwriaeth o'r hyn sy'n bosibl[6]; gall naratif o'r hyn y mae democratiaeth yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni helpu i egluro'r hyn rydym am symud tuag ato.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Yng Nghymru, mae gweledigaethau gwahanol ac ar wahân ar gyfer etholiadau, sy'n cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau, ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn ddinasyddion sy'n cymryd rhan yn ein system ddemocrataidd. Hyd yma, nid yw'r rhain wedi cael eu cyfleu'n gyson na'u dwyn ynghyd fel rhan o weledigaeth gyffredinol ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.

Hyd yn hyn, mae agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio ac adfywio democrataidd wedi canolbwyntio'n bennaf ar gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau, gan gynnwys newidiadau i greu system etholiadol fwy cyfrannol, a gweithio i sicrhau bod grwpiau ymylol yn cael mwy o gymorth i gymryd rhan. Mae'r gwaith hwn wedi'i fframio gan weledigaeth ar gyfer etholiadau yng Nghymru ac wedi'i ategu gan gyfres glir o egwyddorion sydd wedi llywio'r dull ar gyfer diwygio etholiadol.[7] Fodd bynnag, mae mwy a mwy o dystiolaeth ryngwladol bod cynnwys y cyhoedd mewn modd ystyrlon a pharhaus yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau hefyd yn hanfodol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus fel eu bod yn darparu'r hyn sydd ei angen ar bobl i fyw bywydau gwell. Rydym hefyd wedi clywed gan arbenigwyr ym maes ymgysylltu democrataidd fod angen i bobl gael dealltwriaeth sylfaenol o sut mae democratiaeth yn gweithio, a'u bod yn cael eu cefnogi i deimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd a bod croeso iddyn nhw wneud hynny.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y math o ddysgwyr y mae'n anelu atyn nhw, gan gynnwys (fel y dychwelwn ato isod), dysgwyr sy'n *ddinasyddion moesegol a gwybodus*.[8] Yr hyn sydd ei angen nawr yw gweithredu'r uchelgais hwn mewn ffordd gyson a phenodol, yn ogystal â dealltwriaeth gliriach o rôl addysg am ddemocratiaeth fel sylfaen democratiaeth ffyniannus yng Nghymru, o fewn rhaglen ehangach o newid democrataidd.

---

5 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru.* Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

6 New Citizen Project, *Council Culture* www.newcitizenproject.com/council-culture

7 Llywodraeth Cymru (2021), *Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith ar gyfer Diwygio Etholiadol* www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-fframwaith-ar-gyfer-diwygio-etholiadol

8 Llywodraeth Cymru (2020), *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* www.hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad-i-ganllawiau-cwricwlwm-i-gymru/

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn nodi ffyrdd uchelgeisiol o weithio i drawsnewid llesiant pawb yng Nghymru, ac mae eisoes yn ymrwymo sefydliadau'r sector cyhoeddus i gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.[9] Mae hyn yn creu fframwaith ar gyfer gweithio *gyda* phobl (ac nid *iddyn* nhw) i lunio polisïau sy'n effeithio arnyn nhw a'r cymunedau maen nhw'n byw ynddyn nhw. Fe glywsom dystiolaeth o sut mae'r Ddeddf wedi creu llawer o ewyllys da, ac wedi arwain at rai enghreifftiau o arferion da mewn rhai mannau a sefydliadau. Yr hyn sydd ei angen arnom yn awr yw ymdeimlad ein bod, gyda'n gilydd, yn benderfynol o sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o lunio dyfodol gwell i Gymru.

Un anhawster wrth gyfleu cenhadaeth o'r fath yw'r iaith rydym yn ei defnyddio i ddisgrifio'r hyn rydym yn anelu ato. Defnyddir y term 'cynnwys' yn y Ddeddf[10], ond nid yw'r disgwyliadau wedi'u nodi'n benodol o ran sut beth yw 'cynnwys'. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod dulliau fel darparu gwybodaeth ac (yn enwedig) ymgynghori yn cael eu defnyddio'n ddiofyn yn aml; er bod lle i'r rhain, nid ydynt yn rhoi llais ystyrlon a dylanwad i'r cyhoedd dros y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Mae cynnwys, a thermau eraill – fel cyfranogiad, cydgynhyrchu, trafod, cydweithio a deialog – hefyd yn cael eu defnyddio'n wahanol mewn gwahanol gyd-destunau (yng Nghymru, yn ogystal ag ar draws y DU ac yn rhyngwladol), i gyfleu amrywiaeth o ffyrdd o gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau. Mae angen eglurder a chysondeb yn y derminoleg i gyfleu'n well sut rydym am gynnwys pobl yn y dasg o siapio dyfodol gwell i bobl Cymru.

Un dull yw canolbwyntio ar y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n diffinio 'cynnwys' – sefydlu fframwaith clir o ddisgwyliadau ar gyfer y cyhoedd a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Dyma'r dull a ddefnyddir gan sefydliadau rhyngwladol blaenllaw yn y maes hwn, a sefydliadau allweddol yma yng Nghymru. Mae adeiladu ar y gwaith hwn yn cynnig ffordd ymlaen i ddiffinio'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'r weledigaeth ar gyfer y ddemocratiaeth yng Nghymru rydym yn galw amdani uchod – yn seiliedig ar bartneriaeth ddilys a pharhaol rhwng pobl yng Nghymru, a'r sefydliadau democrataidd a'r cynrychiolwyr etholedig sy'n eu gwasanaethu.

## 2.2 Arweinyddiaeth gryfach i sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru

### Am beth rydym yn galw

Mae angen arweinyddiaeth wleidyddol a gweinyddol gryfach ar draws ein system ddemocrataidd i flaenoriaethu a chyflawni democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

> *Sefydlu cyfrifoldeb gweinidogol clir dros ddemocratiaeth Cymru, i ddarparu perchnogaeth dros sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru. Rhaid i hyn gydnabod bod angen dull gweithredu cyfannol ar sawl lefel sy'n cynnwys addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau, a chyfranogiad etholwyr.*
>
> *Bydd yr arweinyddiaeth hon yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth rydym yn galw amdani uchod, ac yn sbarduno newid yn niwylliant ac amodau Llywodraeth Cymru i wreiddio dull gwahanol o wneud penderfyniadau.*

---

9 Llywodraeth Cymru, *Llesiant cenedlaethau'r dyfodol (is-bwnc)* www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol

10 Llywodraeth Cymru (2015), *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion* www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html

Dylai Senedd Cymru ystyried y canlynol:

> *Ymrwymiad gan Lywydd y Seithfed Senedd i edrych ar ffyrdd arloesol o gynnwys dinasyddion yng ngwaith y Senedd, gan gynnwys fforymau cydgynghorol.*
>
> *Cynnig eglurder ynghylch sut bydd pwyllgorau'r Senedd yn craffu'n gadarn ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru, a sut mae'n gweithredu ar hynny.*

Mae angen rhagor o gydweithio yn y meysydd canlynol, i sicrhau arweinyddiaeth gydlynol ar draws ein system ddemocrataidd:

- Dylai gwaith gydag awdurdodau lleol geisio deall y ffordd orau o sicrhau arweinyddiaeth gref sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.
- Byddai'n werth archwilio gyda Chomisiynwyr annibynnol Cymru sut maen nhw'n gallu darparu goruchwyliaeth fwy cydgysylltiedig o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru, a herio'r ymrwymiad hwnnw.
- Un flaenoriaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol yw deall y rhwystrau, y ffactorau galluogi a'r atebion posibl a fyddai'n caniatáu i gymdeithas sifil arwain dulliau arloesol o ddarparu addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, a chynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.

## Pam mae angen hyn

Mae tystiolaeth o astudiaethau achos rhyngwladol yn dangos bod ymrwymiad gwleidyddol clir a pharhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod mentrau i hysbysu a chynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn gadarn ac yn ddylanwadol.[11] Pan fo ymrwymiad gwleidyddol yn wan neu'n absennol, mae mentrau o'r fath yn aml yn wynebu anawsterau neu'n methu.

Nid cyfrifoldeb un lefel o lywodraeth, nac un sefydliad, yw democratiaeth ffyniannus yng Nghymru. Mae'n her i bawb, ac mae'n gofyn am arweinyddiaeth gydlynol, hirdymor a strategol ar draws ein system ddemocrataidd.

Mae angen arweinyddiaeth ar addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, yn ogystal â chynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau, ar draws y system ddemocrataidd. Rhaid i hyn ddod gan arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion yn llywodraeth Cymru a llywodraeth leol ac yn Senedd Cymru, gan Gomisiynwyr annibynnol Cymru, a chan sefydliadau cyhoeddus sydd â rôl o ran darparu gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl.

Mae cymdeithas sifil ac ecosystemau dinesig ehangach hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran arwain y gwaith o sbarduno newid democrataidd. I gael democratiaeth ffyniannus, mae angen ymgysylltiad parhaus â dinasyddion rhwng etholiadau. Mae angen i gymunedau a sefydliadau ar lawr gwlad gael eu grymuso i arloesi o ran sut maen nhw'n hysbysu ac yn cynnwys cymunedau gan eu bod, yn aml, mewn sefyllfa well na'r llywodraeth i greu cyswllt â phobl sy'n teimlo ar hyn o bryd nad ydyn nhw'n deall ein system ddemocrataidd, ddim yn perthyn iddi, nac yn cael llais ynddi.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Ar hyn o bryd, mae perchnogaeth a chyfrifoldeb dros ddemocratiaeth Cymru yn dameidiog ar draws sefydliadau gwleidyddol, ac wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfranogiad etholwyr.

---

11 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru.* Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

Fel y nodwn uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen ag agendâu uchelgeisiol ar gyfranogiad etholwyr a diwygio'r cwricwlwm. Mae hefyd wedi datblygu dull Cymreig unigryw o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnwys ymrwymiadau i gynnwys pobl y mae penderfyniadau polisi yn effeithio arnyn nhw, a chydgynhyrchu â'r bobl hynny. Fodd bynnag, mae'r agendâu hyn wedi cael eu datblygu i raddau helaeth gan wahanol rannau o'r llywodraeth; mae hyn wedi ei gwneud yn anoddach manteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau rhyngddyn nhw fel rhan o agenda gyffredinol o newid democrataidd.

Mae Senedd Cymru yn darparu gweithgareddau addysg am ddemocratiaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc yn deall sut mae democratiaeth yng Nghymru yn gweithio a chyfleoedd i ymweld â'r Senedd ei hun. Mae camau wedi'u cymryd hefyd i gynnwys y cyhoedd mewn ffyrdd newydd yng ngwaith pwyllgorau'r Senedd, a chynnwys pobl ifanc drwy'r Senedd Ieuenctid. Fodd bynnag, nid ydynt eto wedi gwneud defnydd cyson o ddulliau cydgynghorol arloesol y dangoswyd eu bod, mewn mannau eraill, yn cael effaith gadarnhaol ar lunio polisïau ac agweddau cyfranogwyr at ddemocratiaeth (gweler adran 2.4 isod). Clywsom gan arbenigwyr rhyngwladol fod arweinyddiaeth wleidyddol ar lefel uchel yn hanfodol i sbarduno ymrwymiad sefydliadau i ddatblygiadau democrataidd o'r fath mewn seneddau.

Yn ddiweddar, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi galw am arweinyddiaeth gryfach gan Lywodraeth Cymru fel bod cynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau yn dod yn gyffredin yng Nghymru.[12] Fodd bynnag, ni fydd gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei phen ei hun y capasiti, yr adnoddau na'r arbenigedd i ddatblygu'r agenda hon i'r graddau sydd eu hangen.

Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid allweddol wrth fynd i'r afael â her ddemocrataidd Cymru wrth ystyried eu bod yn agos at bobl a'r mannau lle maen nhw'n byw. Mae ganddyn nhw ddyletswydd statudol i sicrhau bod anghenion a dyheadau cymunedau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn lleol (gweler Adran 2.4 isod).[13] Er nad oes llawer o ymgysylltiad wedi bod rhyngom ni ac arweinwyr a swyddogion lleol, rydym wedi clywed am rai o'r heriau sylweddol wrth ymwneud â'r cyhoedd mewn cyd-destun lleol – adnoddau cyfyngedig, agendâu polisi sy'n cystadlu â'i gilydd, lefel isel o ffydd mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd, a mwy a mwy o bolareiddio.

Rydym hefyd wedi clywed gan nifer o fentrau ar lawr gwlad sy'n arwain y gwaith o gyflawni prosiectau addysg a chynnwys, prosiectau arloesol, cynhwysol, creadigol a diddorol sy'n cael cryn effaith gadarnhaol ar y bobl a'r cymunedau maen nhw'n ymgysylltu â nhw. Yr her yw sut mae grymuso mentrau o'r fath, a'r sefydliadau sy'n eu cyflawni, i barhau i arloesi, a thrwy hynny sbarduno newid o'r gwaelod i fyny.

## 2.3 Strategaeth ar gyfer democratiaeth yng Nghymru

### Am beth rydym yn galw

Mae ar Gymru angen strategaeth hirdymor ar gyfer y system gyfan sy'n integreiddio addysg am ddemocratiaeth a chynnwys y cyhoedd ochr yn ochr â chyfranogiad etholwyr, ac sy'n cydlynu camau gweithredu ar draws lefelau cenedlaethol, lleol a chymunedol.

12 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2025), *Citizens Involvement Statement* www.futuregenerations.wales/cym/wp-content/uploads/2025/12/2025-08-01-Citizens-Involvement-Statement-FINAL_Eng.docx

13 Llywodraeth Cymru (2023), *Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar ddemocratiaeth o fewn prif gynghorau: cyfranogiad y cyhoedd; strategaethau a deisebau* www.llyw.cymru/canllawiau-statudol-ac-anstatudol-ar-ddemocratiaeth-o-fewn-prif-gynghorau-strategaethau-cyfranogiad

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

> *Datblygu Strategaeth Genedlaethol hirdymor ar gyfer Democratiaeth yng Nghymru, i ddarparu fframwaith clir ar gyfer sicrhau democratiaeth lle gall pawb ddeall, cymryd rhan a chyfrannu at greu dyfodol gwell i'n gwlad.*

Yn seiliedig ar weledigaeth glir o'r ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru rydym am ei chyflawni, dylai'r strategaeth amlinellu dull gweithredu integredig ar sawl lefel a fydd yn gallu sbarduno diwygio ac arloesi ar lefelau cenedlaethol, lleol a chymunedol.

Dylai'r strategaeth gynnwys ymrwymiadau penodol i:

- archwilio a chael gwared ar y rhwystrau strwythurol rhag deall, teimlo'n rhan o'r system ddemocrataidd a chymryd rhan ynddi
- sefydliadu ac ymgorffori dulliau penodol o gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau, fel mai dyma fydd y ffyrdd safonol o weithio yn Llywodraeth Cymru
- sicrhau bod cymdeithas sifil yn gallu gwneud mwy drwy lefelau priodol o gyllid penodol ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo democratiaeth (er enghraifft, drwy feithrin gwybodaeth a sgiliau sy'n ymwneud â democratiaeth, a chynnwys cymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau ar faterion lleol).

Dylai'r strategaeth gael ei hariannu'n ddigonol. Dylai hefyd gyd-fynd â strwythurau gweinidogol a sefydliadol, nodi cynlluniau gweithredu ar gyfer meysydd blaenoriaeth, a dylid cael dangosyddion priodol ar ei chyfer sy'n caniatáu mesur cynnydd ac sy'n gallu llywio blaenoriaethau polisi a chyllido yn y dyfodol:

> *Cynnwys disgwyliadau penodol ar gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn holl strategaethau neu gynlluniau gweithredu eraill Llywodraeth Cymru, oni bai ei bod yn amlwg nad yw hynny'n briodol.*

Dylai Senedd Cymru ystyried y canlynol:

> *Ymrwymo i brif ffrydio a chyllido dulliau ymgysylltu cydgynghorol yng ngwaith y Senedd fel rhan o'i Strategaeth Comisiwn y Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd, gyda chyfiawnhad clir a phwrpas diffiniedig ar gyfer defnyddio'r dulliau hyn yng ngweithgarwch y senedd.*

Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn:

- deall yn well pa mor effeithiol yw strategaethau Awdurdodau Lleol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd
- datblygu cynigion gyda gweinidogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr awdurdodau lleol i gysoni fframweithiau strategol ar gyfer addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd a chyfranogiad etholwyr ar draws gwahanol lefelau o lywodraeth, mewn ffyrdd sy'n gwneud pethau'n gliriach i'r cyhoedd ac yn lleihau dryswch ar draws y dirwedd ddemocrataidd
- edrych eto ar ddangosyddion Llywodraeth Cymru sydd newydd eu cyhoeddi ar gyfer iechyd democrataidd yng Nghymru[14], i weld pa mor briodol ydyn nhw ar gyfer mesur cynnydd tuag at ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru.

---

14 Llywodraeth Cymru, *Iechyd Democrataidd* [www.llyw.cymru/iechyd-democrataidd](www.llyw.cymru/iechyd-democrataidd)

## Pam mae angen hyn

Ar lefel ryngwladol, mae nifer o ddulliau wedi cael eu defnyddio i integreiddio cynnwys y cyhoedd yn llawnach yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau.[15] Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno hawliau a gofynion newydd neu well ar gyfer cynnwys y cyhoedd; datblygu fframweithiau, safonau gofynnol a chanllawiau; sefydliadu dulliau penodol o gynnwys y cyhoedd; a chreu cyllidebau ac adnoddau pwrpasol i gefnogi cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.

Mae'n amlwg nad oes un llwybr penodol ar gyfer prif ffrydio cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau rhwng etholiadau. Mae angen cyfuno, addasu a gosod trefn ar wahanol ddulliau gweithredu mewn ffyrdd sy'n ymateb i gyd-destunau dinesig, gwleidyddol a gweinyddol penodol ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae cyflawni'r weledigaeth ar gyfer democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn gofyn am strategaeth hirdymor a chyfannol sy'n dysgu o brofiadau mewn mannau eraill ac sy'n cymhwyso'r ddealltwriaeth hon i'r cyd-destun Cymreig unigryw. Rhan ganolog o hyn yw datblygu dull integredig sy'n dwyn ynghyd wahanol ddimensiynau addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, cynnwys y cyhoedd a chyfranogiad etholwyr i greu strategaeth gyffredinol gydlynol.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Gall ffurfioli'r disgwyliadau ar gyfer addysg am ddemocratiaeth a chynnwys y cyhoedd mewn deddfwriaeth, strategaethau a chynlluniau gweithredu fod yn ffordd effeithiol o hyrwyddo'r arferion hyn, cyfeirio adnoddau a chyllid tuag atyn nhw, ac, yn achos fframweithiau cyfreithiol, eu gwarchod rhag blaenoriaethau gwleidyddol sy'n newid. Mae fframweithiau deddfwriaethol a strategol gwahanol eisoes yn bodoli ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefelau cenedlaethol a lleol yng Nghymru.[16] Fel y nodwn uchod, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) eisoes yn gosod gofyniad statudol ar gyrff cyhoeddus i gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, tra bod cydgynhyrchu yn un o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gael strategaethau cyfranogi sy'n dangos sut mae cymunedau'n cael eu rhoi wrth galon y broses o wneud penderfyniadau lleol, ochr yn ochr ag amrywiaeth o drefniadau statudol eraill sy'n cefnogi cyfranogiad, tryloywder, a chraffu cyhoeddus. Er nad oes strategaeth yng Nghymru ar gyfer addysg am ddemocratiaeth ar hyn o bryd, mae cyfle i gryfhau cydlyniad a sicrhau mwy o gysondeb ar draws gwahanol ddimensiynau o ddemocratiaeth yng Nghymru a'r lefelau cenedlaethol, lleol a chymunedol maen nhw'n gweithredu arnyn nhw.

Ni chawsom amser i edrych ar effeithiolrwydd y fframweithiau cyfreithiol a strategol presennol yn systematig ac o safbwyntiau gwahanol gyrff cyhoeddus ac awdurdodau lleol. Ond, clywsom rai pryderon ynghylch a yw'r fframweithiau hyn yn creu cyfleoedd ystyrlon yn gyson i bobl fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn tynnu sylw at her glir, a chyfle pwysig, i ddeall yn well sut mae cefnogi'r gwaith o weithredu'r fframweithiau presennol yn fwy effeithiol, yn ogystal ag edrych i weld a allai fframweithiau mwy integredig helpu i gryfhau sylfeini democratiaeth ffyniannus yng Nghymru.

Ychydig o gyllid sydd ar gael i gefnogi prosiectau sy'n darparu addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth, neu gyfleoedd i ddinasyddion fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Clywsom fod ychydig

---

15 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru.* Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

16 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru.* Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

o adnoddau yn cael eu dyrannu i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig gwahanol ffyrdd o weithio fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a dyma un (ond nid yr unig) ffactor sy'n cyfyngu ar weithredu'r Ddeddf. O fewn fframwaith diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru, mae'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth (DEG) wedi bod yn ffynhonnell bwysig o gymorth i sefydliadau sy'n darparu gweithgarwch ymgysylltu democrataidd ers 2023, gan alluogi gwaith na fyddai, o bosibl, wedi digwydd fel arall. Mae'r dull yn cydnabod mai'r ffordd orau, yn aml, o ddarparu ymgysylltu democrataidd yw drwy gyfryngwyr dibynadwy a'r rheini sydd ag arbenigedd a chysylltiadau presennol. Ond mae heriau'n parhau o ran faint o gyllid sydd ar gael, y meini prawf ar gyfer cael gafael ar y cyllid hwn, a chynaliadwyedd prosiectau a'r gallu iddyn nhw dyfu yn unol â'r anghenion. Gall hefyd fod yn anodd dangos tystiolaeth o effaith tymor hwy gweithgarwch ymgysylltu democrataidd, yn enwedig lle nad oes gan sefydliadau'r adnoddau na'r fframweithiau i asesu canlyniadau mewn ffordd gyson.

Yn Senedd Cymru, ac wrth baratoi ar gyfer y seithfed Senedd, mae adolygiad o strategaeth Comisiwn y Senedd yn mynd rhagddo. Gyda hyn mewn golwg, cafodd tystiolaeth ei chasglu gan seneddau rhanbarthol ledled Ewrop sydd wedi prif ffrydio dulliau ymgysylltu cydgynghorol fel nodwedd barhaol o waith y senedd. Mae cynulliadau a phaneli dinasyddion, sy'n cynnwys cyfranogwyr a ddewiswyd ar hap, yn cael gwybodaeth gytbwys am fater, yn cymryd amser i drafod y mater hwnnw, ac yn llunio argymhellion polisi sy'n cael eu hystyried gan gynrychiolwyr etholedig. Clywsom fod dull gweithredu cydgynghorol o'r fath yn cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth ac ansawdd y cynigion polisi, yn golygu bod gan gyfranogwyr fwy o ymgysylltiad â gwleidyddiaeth ddemocrataidd a mwy o ffydd ynddi, a bod hyn yn gallu meithrin cydweithio trawsbleidiol mewn sefydliadau gwleidyddol. Yr hyn sy'n hanfodol i lwyddiant, fodd bynnag, yw bod strwythurau cydgynghorol parhaol wedi'u gwreiddio'n llawn yn y prosesau ffurfiol o wneud penderfyniadau. Pan fo popeth yn cydweddu fel hyn, gall syniadau cyfranogwyr siapio'r broses o wneud penderfyniadau'n uniongyrchol; mae hyn, yn ei dro, yn rhoi hyder i gyfranogwyr eu bod wedi cael dweud eu dweud yn ystyrlon mewn dadl wleidyddol, ac mae'n gallu helpu i gryfhau eu ffydd mewn sefydliadau democrataidd.

Ar wahân i ddata sy'n ymwneud â'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau, prin yw'r data a'r dulliau ar gyfer mesur cyflwr democratiaeth yng Nghymru. Clywsom dystiolaeth am rywfaint o arferion da yn hyn o beth. Er enghraifft, mae'r Senedd yn casglu tystiolaeth yn systematig am effaith ei gwaith ymgysylltu ar gyfranogwyr, gan ganiatáu dull sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer ei strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd. Ond, clywsom hefyd fod cynnal gwerthusiad systematig o effaith prosiectau addysg am ddemocratiaeth a chynnwys dinasyddion yn aml yn heriol, a bod angen canllawiau a fframweithiau gwerthuso cliriach. Ar lefel Cymru gyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dangosyddion yn ddiweddar sy'n mesur iechyd democrataidd yng Nghymru, ac mae angen rhagor o waith i weld pa mor briodol ydyn nhw ar gyfer gwerthuso cynnydd tuag at ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru fel rydym yn ei ddeall yn yr adroddiad hwn.

## 2.4 Creu'r amodau a'r diwylliant mewn sefydliadau i ddemocratiaeth Cymru ffynnu

### Am beth rydym yn galw

Mae sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn gofyn am weledigaeth glir, arweinyddiaeth gref a fframweithiau strategol hirdymor, ond rhaid i'r rhain hefyd fod yn seiliedig ar ddiwylliannau mewn sefydliadau ac amodau ffafriol fel bod modd gwreiddio a phrif ffrydio datblygiadau arloesol i ddemocratiaeth Cymru yn llawn. Rydym yn dweud mwy am yr amodau sydd eu hangen ar gyfer gwell addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth yn Adrannau 2.5 a 2.6 sy'n dilyn. Yma, rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen i ddatblygu'r gallu i gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

> *Ystyried sefydlu Uned Cynnwys y Cyhoedd yn ganolog i gryfhau a chydlynu ei dull o gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau.*

Byddai uned ganolog o'r fath yn galluogi gosod safonau a disgwyliadau cyffredinol, yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddulliau cyfranogol, cydgynghorol a chydgynhyrchu, yn sicrhau ansawdd a chysondeb y fethodoleg, yn datblygu mesurau priodol ar gyfer gwerthuso effaith, ac yn cefnogi dysgu mewn sefydliadau.

Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn:

- dysgu o achosion eraill lle mae uned graidd o'r fath wedi'i sefydlu
- deall y ffordd orau o gynllunio uned o'r fath yn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mapio'r capasiti mewnol presennol, ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol gwleidyddol a gwasanaeth sifil a fyddai'n ei siapio a'i rhoi ar waith. Bydd yr ymgysylltu hwn yn hanfodol i sicrhau bod unrhyw fodel yn seiliedig ar dystiolaeth, a'i fod yn ymarferol, ac yn cyd-fynd ag anghenion sefydliad.

Yn ychwanegol, dylai Senedd Cymru ystyried y canlynol:

> *Meithrin gallu a chefnogaeth wleidyddol ar gyfer dulliau cydgynghorol i gynnwys y cyhoedd, drwy ymgymryd â chyfleoedd dysgu gan gymheiriaid a phrosiectau peilot sy'n caniatáu i wleidyddion a swyddogion brofi ymgysylltu cydgynghorol drostyn nhw eu hunain. Rhan allweddol o'r gwaith hwn fyddai deall effaith dulliau o'r fath (fel bod modd datblygu mesurau priodol i werthuso ac ailadrodd prosiectau).*

Un flaenoriaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol yw gwneud gwaith cydweithredol a chyfranogol i gyd-ddatblygu cynigion penodol ar gyfer datblygu capasiti sefydliadau a galluoedd proffesiynol i brif ffrydio gweithgarwch sy'n ymwneud â chynnwys y cyhoedd. Mae angen hyn gyda chynrychiolwyr etholedig a swyddogion Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru, yn ogystal ag o awdurdodau lleol. Rhaid i gynigion ar gyfer newid gael eu siapio a bod yn eiddo i'r rheini sy'n gweithio yn y sefydliadau democrataidd rydym am eu newid, ac sydd felly yn adnabod ac yn deall y sefydliadau hynny orau. Mae'r meysydd i'w harchwilio yn cynnwys rhaglenni cynefino a dysgu parhaus, yn ogystal â phrosesau caffael (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

Mae angen gwneud rhagor o waith hefyd i ddeall sut mae gwella capasiti a gallu o fewn cymdeithas sifil i arloesi wrth ddarparu cyfleoedd i gynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau mewn cymunedau. Gallai hyn gynnwys ystyried creu Canolfannau Rhagoriaeth sydd â chylch gwaith ehangach y tu hwnt i Lywodraeth Cymru, i fod yn ganolbwynt ar gyfer cefnogi'r gwaith o ddatblygu ecosystem ddinesig gryfach ar gyfer cynnwys y cyhoedd.

### Pam mae angen hyn

Rydym wedi clywed dro ar ôl tro, gan ymarferwyr ac arbenigwyr yn y DU ac yn rhyngwladol, bod pobl yn awyddus i deimlo'n rhan o'r system ddemocrataidd a gallu cyfrannu ati os yw'r amodau'n iawn. Yr her ymhob man yw sut mae rhoi'r amodau hyn ar waith, fel bod modd i ni wireddu'r uchelgais o bartneriaeth ddilys a pharhaol rhwng pobl a'r sefydliadau democrataidd a'r cynrychiolwyr etholedig sy'n eu gwasanaethu.

Mae gwneud hynny'n gofyn am waith pwrpasol hirdymor i newid meddylfryd, credoau, agweddau ac ymddygiad er mwyn sicrhau bod cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn dod yn ddull gweithredu diofyn mewn sefydliadau gwleidyddol ac ar draws cymdeithas yn ehangach.

Mae hyn yn cynnwys rhoi'r gefnogaeth, y polisïau, y gweithdrefnau, y cymhellion a'r seilwaith ar waith i sbarduno newid mewn sefydliadau. Fel hyn, mae cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei wreiddio a'i werthfawrogi fel rhan o'r system ehangach o lunio polisïau, yn hytrach na bod yn ymyriad ar ei ben ei hun.[17]

Mae cyflawni a chynnal democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn gofyn am gapasiti mewn sefydliadau (fel amser staff, hyblygrwydd cyllidebol, a lle yn y sefydliad i wreiddio gwahanol ffyrdd o weithio mewn llif gwaith bob dydd) a galluoedd proffesiynol (fel y sgiliau i lunio mentrau cynnwys y cyhoedd, sicrhau cynhwysiant, a throsi cyfraniad y cyhoedd yn bolisi). Mae hyn yn ofynnol ar draws lefelau llywodraeth a chymdeithas sifil, fel rhan o ddull systemig o gefnogi democratiaeth yng Nghymru i ffynnu.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Fel y nodwn uchod, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a deddfwriaethau eraill wedi gosod disgwyliad y dylai pobl fod wrth galon penderfyniadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd sydd wedi cael ei wneud, mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed hyd yma yn dangos nad yw'r gwaith o gynnwys dinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau wedi cael ei brif ffrydio'n gyson eto.

Bu hon yn thema gyson gan y rheini sy'n gweithio mewn llywodraeth leol a chenedlaethol ac yn gweithio gyda nhw, a chan fudiadau cymunedol ac ymarferwyr. Pan fydd sefydliadau neu dimau'n ceisio arloesi, mae uchelgais yn aml yn cael ei gyfyngu gan rwystrau ymarferol – gan gynnwys diwylliannau sy'n ofalus wrth feddwl am risg, prosesau a gweithdrefnau presennol, a diffyg cefnogaeth ar lefel uchel gan arweinwyr a swyddogion gwleidyddol. Gall hyn fod yn rhwystredig, a gall fod yn anodd gweld sut mae newid meddylfryd ac arferion sydd wedi gwreiddio. Yr hyn sydd ar goll yw'r diwygio strwythurol, y buddsoddiad strategol, a'r newidiadau mewn meddylfryd sydd eu hangen i wreiddio cyfranogiad yn ystyrlon fel ffordd o weithio.

Clywsom gan arbenigwyr rhyngwladol fod gwahanol fentrau i brif ffrydio cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau wedi cael eu rhoi ar waith mewn gwahanol leoedd. Nid oes un llwybr penodol i brif ffrydio cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau; mae angen cyfuniad o ddulliau sydd fel arfer yn cael eu haddasu, eu cyfuno a'u cydlynu mewn ffyrdd sy'n briodol i'r cyd-destun gwleidyddol a gweinyddol.[18] Mae modd cyflawni hyn drwy gyd-ddylunio a phrofi arferion o ddydd i ddydd gyda'r rheini sy'n gweithio yn y sefydliadau eu hunain, fel bod atebion yn cael eu llywio a'u perchenogi gan y rheini sy'n deall orau'r cyd-destunau lle mae angen newid diwylliant ac amodau.

Mae mesur effaith dulliau o'r fath ar ddiwylliannau mewn sefydliadau yn bwysig ond gall fod yn heriol. Mae angen datblygu mesurau ar gyfer meincnodi gallu a chapasiti mewnol sefydliadau, fel bod modd gwerthuso effaith unrhyw fentrau. Mae tystiolaeth bod rhai dulliau gweithredu, fel canolfannau rhagoriaeth mewn llywodraethau, wedi bod yn effeithiol o ran meithrin gallu a darparu cymorth ar draws adrannau'r llywodraeth (ac yn ehangach ar draws cymdeithas, yn dibynnu ar eu statws a'u cwmpas). Gall un rhan o gylch gwaith canolfannau o'r fath gynnwys codi ymwybyddiaeth a chael gwell dealltwriaeth o'r ystod eang o fethodolegau cyfranogol, cydgynghorol a chydgynhyrchu sy'n bodoli ar gyfer cynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau (gan gynnwys eu cryfderau a'u gwendidau, a pha bryd maen nhw fwyaf priodol i'w defnyddio). Maen nhw hefyd yn gallu ychwanegu

---

17 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru.* Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

18 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru.* Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

gwerth pan fyddan nhw'n helpu llunwyr polisïau i gael profiad uniongyrchol o ddefnyddio gwahanol ddulliau – mewn geiriau eraill, i ymarfer cynnwys y cyhoedd eu hunain.

## 2.5 Addysg am ddemocratiaeth sy'n arfogi pobl ifanc i gymryd rhan yn nemocratiaeth Cymru

### Am beth rydym yn galw

Dylai pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau gael addysg am ddemocratiaeth sy'n rhoi iddyn nhw'r wybodaeth sylfaen, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnyn nhw i gymryd rhan yn y system ddemocrataidd.

Bydd cyflawni'r uchelgais hwn yn gofyn am ddwyn ynghyd pawb sy'n chwarae rhan yn addysg pobl ifanc am ddemocratiaeth i feithrin cyd-ddealltwriaeth o'r hyn a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn ymarferol. Bydd unrhyw gynigion sy'n dilyn yn seiliedig ar dystiolaeth, ac wedi'u cynllunio i fod yn realistig, yn gymesur ac yn gyraeddadwy i'r rheini y bydd disgwyl iddyn nhw eu cyflawni.

Rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn gydag ysgolion, athrawon, pobl ifanc, awdurdodau lleol, Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol. Ar sail yr hyn rydym wedi'i glywed hyd yma, rydym wedi nodi'r meysydd canlynol sy'n haeddu cael eu harchwilio ymhellach:

- canllawiau cliriach a manylach i gefnogi ysgolion i ddarparu addysg am ddemocratiaeth yn gyson o fewn y Cwricwlwm i Gymru, gyda monitro priodol a mireinio cyson
- arweinyddiaeth gryfach mewn ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg am ddemocratiaeth mewn ffordd strategol a chynaliadwy
- hyfforddiant a chefnogaeth i athrawon i ddarparu addysg am ddemocratiaeth yn hyderus
- cronfa glir a hygyrch o adnoddau o ansawdd uchel i bob dysgwr ar draws taith y cwricwlwm, y gellir eu haddasu i fod yn berthnasol yn lleol a heb fod wedi'u cyfyngu i etholiadau
- mynediad tecach at addysg o ansawdd uchel am ddemocratiaeth – gan gynnwys cyfleoedd dysgu drwy brofiad – beth bynnag fo'r amgylchiadau neu'r ddaearyddiaeth
- cydlynu gwell rhwng sefydliadau sy'n cymryd rhan weithredol mewn addysg am ddemocratiaeth fel bod yr hyn maen nhw'n ei gynnig yn ategu ei gilydd, a lleihau dyblygu di-fudd o ran eu cynnwys a'u hymdrechion i gyrraedd ysgolion
- mapio a rhannu arferion da wrth ddarparu profiadau dysgu sy'n caniatáu i bobl ifanc ymarfer democratiaeth drostyn nhw eu hunain.

### Pam mae angen hyn

Dylai pawb adael yr ysgol yn teimlo eu bod yn rhan o ddemocratiaeth yng Nghymru, ac yn gallu cyfrannu ati. Os ydym yn disgwyl i bobl ifanc gymryd rhan yn ein democratiaeth, rhaid i ni ddangos bod eu cyfranogiad yn cael ei werthfawrogi go iawn – drwy sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu cael addysg gyson o ansawdd uchel am ddemocratiaeth, lle bynnag y mae'n byw.

Erbyn hyn, mae pobl ifanc yng Nghymru yn gallu pleidleisio yng Nghymru o 16 oed[19], ymlaen, ac mae'n hanfodol bod ganddyn nhw'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i fanteisio ar y cyfle hwn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i addysg am ddemocratiaeth gael ei darparu mewn ffyrdd sy'n briodol i oedran drwy gydol addysg ffurfiol, gan gynnwys y cyfle i ymarfer democratiaeth drwy gyfleoedd dysgu drwy brofiad.

---

19 Cyfraith Cymru (2020), *Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020* www.cyfraith.llyw.cymru/deddf-senedd-ac-etholiadau-cymru-2020

I gyflawni hyn, rydym yn galw am addysg am ddemocratiaeth sy'n darparu'r canlynol i bob plentyn a pherson ifanc:

- gwybodaeth graidd am sut mae democratiaeth yng Nghymru a'r DU yn gweithio
- profiadau dysgu sy'n cysylltu pobl ifanc â'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau gwleidyddol
- cyfleoedd i ymarfer democratiaeth drostyn nhw eu hunain, drwy allu siapio penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Dylai addysg am ddemocratiaeth gael ei darparu mewn ffyrdd hygyrch, diddorol a chreadigol, gan amrywiaeth o bobl a sefydliadau gan gynnwys athrawon, elusennau a sefydliadau gwleidyddol. Rhaid i'r cyllid, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth angenrheidiol fod ar gael i wneud hyn yn bosibl.

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Dywedodd sefydliadau wrthym, er bod enghreifftiau o arfer da, fod amrywiadau sylweddol hefyd yn ansawdd a chysondeb y cyfleoedd addysg am ddemocratiaeth sydd ar gael i bobl ifanc mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru. O ganlyniad, mae llawer o bobl ifanc yn gadael addysg ffurfiol heb yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i gymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru, na'r hyder bod eu llais yn bwysig a'u bod yn gallu siapio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r amrywiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn hyder a gwybodaeth rhai athrawon eu hunain, gan adlewyrchu pwysau'r llwyth gwaith maen nhw'n eu hwynebu, sensitifrwydd ynghylch cynnwys gwleidyddol, ac anghysondeb yn y cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Hyn a hyn o adnoddau sydd ar gael hefyd ar gyfer cyfleoedd dysgu drwy brofiad; mae hyn yn golygu mai dim ond i bobl ifanc mewn rhai ysgolion, mewn rhai rhannau o Gymru, y mae cyfleoedd o'r fath ar gael. Er enghraifft, gall costau trafnidiaeth i blant ymweld â sefydliadau democrataidd allweddol fod yn afresymol i lawer o ysgolion.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn darparu fframwaith ar gyfer addysg am ddemocratiaeth, drwy'r ymrwymiad i ddatblygu *dinasyddion egwyddorol a gwybodus* fel un o'i Bedwar Diben.[20] Clywsom gan wahanol sefydliadau fod dulliau cynnar, parhaus, arbrofol a chreadigol o ddarparu addysg am ddemocratiaeth yn hanfodol. Mae tystiolaeth hefyd o effaith gadarnhaol dulliau o'r fath ar wybodaeth, sgiliau, ymgysylltiad democrataidd a ffydd pobl ifanc yn y rheini sy'n gwneud penderfyniadau.
Mae rhai adnoddau eisoes yn bodoli i gefnogi'r broses o ddarparu addysg am ddemocratiaeth, ac mae ymdrechion i wella'r cydlynu rhwng gwahanol sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau addysg am ddemocratiaeth mewn ysgolion.

Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn parhau. Byddai'r Cwricwlwm i Gymru yn elwa o gael mwy o eglurder ynghylch sut gall addysg am ddemocratiaeth gefnogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Mae adnoddau a gweithgareddau presennol yn aml yn canolbwyntio ar etholiadau ac o'u cwmpas. Mae ymwybyddiaeth athrawon o'r adnoddau presennol a'u defnydd o'r adnoddau hynny yn anghyson; mae'r flaenoriaeth a roddir i addysg am ddemocratiaeth hefyd yn amrywio o ganlyniad i bwysau sylweddol o ran llwyth gwaith, lefelau hyder, a phryderon am ragfarn wirioneddol neu ymddangosiadol.

Clywsom hefyd fod agweddau pobl ifanc at wleidyddiaeth ddemocrataidd yn aml yn cael eu siapio gan gyd-destunau ehangach fel profiadau bywyd a chamwybodaeth/twyllwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. O'r safbwynt hwn, nid cyfrifoldeb ysgolion a cholegau yn unig yw gwybodaeth am

---

20 Llywodraeth Cymru (2020), *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*
[www.hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad-i-ganllawiau-cwricwlwm-i-gymru/](www.hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad-i-ganllawiau-cwricwlwm-i-gymru/)

ddemocratiaeth a chyfranogiad. Mae angen iddo gyd-fynd â rhaglen waith ehangach sy'n cefnogi pawb yng Nghymru i ddeall a chymryd rhan yn ein democratiaeth; rydym yn ystyried beth sydd ei angen yn hyn o beth yn yr adran nesaf.

Bydd ymchwil i ganfod a dysgu o enghreifftiau rhyngwladol o arferion da yn bwysig i sicrhau bod gwaith yn y dyfodol i gryfhau addysg am ddemocratiaeth yng Nghymru yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei siapio gan yr hyn sy'n gweithio.

## 2.6 Sicrhau bod pawb yn gallu deall ac ymarfer democratiaeth drwy gydol eu hoes

### Am beth rydym yn galw

Dylai gwybodaeth am sut mae democratiaeth yng Nghymru a'r DU yn gweithio fod ar gael i bawb drwy gydol eu hoes, er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch sut a phryd maen nhw am gymryd rhan ynddi.

Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol lle mae angen gwneud rhagor o waith i gyd-ddatblygu argymhellion pendant:

- rydym yn cynnig bod gwaith yn cael ei wneud gyda swyddogion llywodraeth leol a llywodraeth Cymru, partneriaid perthnasol a chymunedau penodol, i fapio a gwerthuso prosiectau a gweithgareddau presennol. Gall y gwaith hwn hefyd gyd-ddatblygu atebion sy'n cael eu hariannu'n gynaliadwy ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned ar gyfer darparu addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth i bawb yng Nghymru drwy gydol eu hoes
- mae angen cydweithio â rhanddeiliaid perthnasol i gynnal adolygiad o'r llwyfannau presennol sy'n cynnig gwybodaeth ddigidol am ddemocratiaeth i ddeall, a ydyn nhw'n cael eu defnyddio a sut, er mwyn deall yn well beth yw rôl llwyfannau o'r fath o ran cefnogi addysg a gwybodaeth am ddemocratiaeth ar draws cymdeithas Cymru.

### Pam mae angen hyn

Dylai pobl allu deall a theimlo eu bod yn rhan o'n democratiaeth drwy gydol y flwyddyn, ac nid dim ond adeg etholiadau. Mae deall sut mae ein democratiaeth yn gweithio yn hanfodol ar gyfer democratiaeth ffyniannus.

Dylid darparu gwybodaeth am ddemocratiaeth drwy brosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar y gymuned a ffynonellau annibynnol mae modd cael gafael arnyn nhw wyneb yn wyneb ac ar-lein. Dylai'r wybodaeth hon ganolbwyntio ar hanfodion sut mae democratiaeth yng Nghymru a'r DU yn gweithio, a dylai fod ar gael yn rhwydd mewn fformatau diddorol, hygyrch, creadigol, sy'n briodol yn ddiwylliannol.

Mae angen i ni greu'r amodau i brosiectau gwybodaeth am ddemocratiaeth, sy'n cael eu darparu gan bartneriaid dibynadwy mewn cymunedau, gael eu hariannu'n briodol, a bod yn gynaliadwy gyda'r gallu i dyfu yn unol â'r anghenion. Fel y nodwyd yn Adran 2.3, mae angen cyflawni'r gwaith hwn fel rhan o strategaethau democrataidd cenedlaethol a lleol, a'i gefnogi gyda chyllid priodol a chyfleoedd i feithrin gallu. Mae gwneud hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb wrth ddarparu prosiectau ar draws pob cymuned.

Mae rhoi rhan fwy i'r cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol hefyd yn rhoi cyfle i bawb yng Nghymru ddysgu am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, a chael llais yn y penderfyniadau hynny. Mae cynnwys pobl yn uniongyrchol yn y broses o wneud penderfyniadau

rhwng etholiadau yn ffordd o ddysgu am ddemocratiaeth drwy ymarfer democratiaeth, yn ogystal â gwella ansawdd a dilysrwydd penderfyniadau drwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o safbwyntiau a phrofiadau.

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Nid oes digon o wybodaeth sylfaenol am sut mae democratiaeth yng Nghymru yn gweithio ar gael i bobl ar ôl iddyn nhw adael addysg ffurfiol. Hyn a hyn o gyfleoedd sydd i gael gafael ar adnoddau a phrofiadau perthnasol, gan adael llawer heb yr wybodaeth sylfaenol, y sgiliau na'r hyder i ddeall ac ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru – neu'r ymdeimlad o reolaeth a pherthyn sydd ei angen i deimlo bod eu cyfranogiad yn bwysig. Mae'r dirwedd cyfryngau fregus yng Nghymru, nad oes digon o adnoddau ar ei chyfer, yn ychwanegu at yr her hon, lle mae plwraliaeth a chapasiti cyfyngedig yn golygu bod sylw gwleidyddol o ddydd i ddydd i wleidyddiaeth ddemocrataidd yng Nghymru yn aml yn gyfyngedig. Clywsom fod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn dibynnu ar ddarparwyr yn y DU sy'n aml yn cyflwyno straeon Cymru drwy lens Lloegr, gan arwain at ddryswch ynghylch cwmpas pwerau datganoledig a chyfrifoldebau penodol sefydliadau yng Nghymru.

Fel y nodwn uchod, mae'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth gan Lywodraeth Cymru yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r bylchau hyn, drwy ariannu sefydliadau'r trydydd sector i roi cynlluniau ymgysylltu democrataidd penodol ar waith. Mae tystiolaeth gan sefydliadau a ariennir yn tynnu sylw at werth cyllid hyblyg a pharhaus, a darpariaeth yn y gymuned. Clywsom hefyd am y rôl bwysig y mae swyddogion awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu cyfleoedd dysgu a chyfranogi cynhwysol, hygyrch a dilys mewn perthynas â democratiaeth leol.

Fodd bynnag, mae rhwystrau sylweddol gyda'r gwaith hwn hefyd. Yn aml, mae angen cymorth ychwanegol ar wirfoddolwyr i ddatblygu'r hyder a'r gallu i ddarparu addysg am ddemocratiaeth, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae difaterwch gwleidyddol, polareiddio, a chamwybodaeth neu dwyllwybodaeth. Mae asesu effaith yn parhau i fod yn her sylweddol hefyd (fel sy'n gyffredin ar draws gwaith ymgysylltu democrataidd[21]), gyda modelau a methodolegau prosiect amrywiol yn gwneud gwerthuso'n anodd, gan gyfyngu ar y gallu i ddod i gasgliadau clir am effeithiolrwydd.[22] Mae gwerthuso yn aml yn heriol hefyd: nid oes gan lawer o sefydliadau'r adnoddau na'r gallu i ddylunio a darparu dull cadarn o fesur effaith, gan ei gwneud yn anoddach gwella ymarfer neu adeiladu sylfaen dystiolaeth. Er bod camau'n cael eu cymryd i wella hyn, mae'n amlwg bod angen fframweithiau gwerthuso mwy safonol a chydlynu'r gwaith o gasglu a dadansoddi data ar draws rhaglenni yn well.

Mae Llwyfan Gwybodaeth am Etholiadau Cymru (WEIP), sydd ar y we, newydd gael ei lansio. Bydd yn darparu gwybodaeth i bleidleiswyr ac yn eu cefnogi i gymryd rhan yn etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau lleol. Fodd bynnag, mae galw mawr hefyd am wybodaeth ddiduedd a diddorol y cyfeirir ati'n glir am sut mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru drwy gydol y flwyddyn, ac nid dim ond ar etholiadau a phleidleisio. Mae hefyd yn hanfodol ystyried pa mor hygyrch yw gwybodaeth o'r fath, yn enwedig i'r rheini sydd bellaf oddi wrth bŵer, neu'r rheini sy'n ymddiried leiaf mewn gwleidyddion etholedig a sefydliadau democrataidd.

Bydd ymchwil i ganfod a dysgu o enghreifftiau rhyngwladol o arferion da yn bwysig i sicrhau bod gwaith yn y dyfodol i gryfhau addysg am ddemocratiaeth yng Nghymru yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei siapio gan yr hyn sy'n gweithio.

---

21 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Prif Ffrydio democratiaeth gyfranogol a chydgynghorol yng Nghymru*. Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw'r Democratic Society www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-prif-ffrydio-democratiaeth-gyfranogol-a-chydgynghorol-yng-nghymru

22 Llywodraeth Cymru, *Gwerthusiad o'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth* www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-grant-ymgysylltu-democratiaeth

# 3. Egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant Cymru

### Am beth rydym yn galw

Mae angen eglurder ynghylch yr angen am ddatganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant ar gyfer Cymru, a phwrpas y datganiad hwnnw, cyn ystyried a allai pobl fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu datganiad o'r fath a sut.

Dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld hefyd i ba raddau y mae pob plaid yn cefnogi prosiect o'r fath, er mwyn sicrhau proses sy'n hyfyw ac sydd â chanlyniadau a fydd yn cael eu cymryd o ddifrif.

Mae adran flaenorol yr adroddiad hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer democratiaeth yng Nghymru; byddai bwrw ymlaen â'r rhain yn darparu'r fframwaith ar gyfer meddwl a fyddai modd cynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant, a sut fyddai modd eu cynnwys. Dylai'r dull o gynnwys y cyhoedd gyd-fynd â'r gwerthoedd a'r egwyddorion craidd a nodir fel rhan o'r weledigaeth a'r strategaeth ar gyfer democratiaeth yng Nghymru rydym yn galw amdanyn nhw uchod. Dylai hefyd ddysgu o arferion gorau rhyngwladol o ran pryd a sut mae cynnwys dinasyddion yn y gwaith o nodi egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant ar gyfer Cymru.

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Clywsom safbwyntiau gwahanol ar bwrpas a swyddogaeth datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethiant, ac a oes angen datganiad o'r fath ai peidio. Nid yw'n glir ychwaith beth fyddai statws datganiad o'r fath, ac mae perygl o gymhlethu dealltwriaeth o lywodraethiant yng Nghymru ymhellach gyda datganiad nad yw'n cael unrhyw effaith gyfreithiol glir.

Gwnaethom gomisiynu adolygiad tystiolaeth o brofiadau rhyngwladol o lunio cyfansoddiad gyda chyfranogiad pobl er mwyn iddo ein helpu i ystyried a fyddai modd cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ddrafftio datganiad o'r fath a sut fyddai modd eu cynnwys.[23] Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall prosesau cyfansoddiadol gyda chyfranogiad pobl, o'u gwneud yn dda, gyfrannu at feithrin ymddiriedaeth mewn democratiaeth. Mae hyn yn dibynnu, fodd bynnag, ar feddwl yn ofalus ynghylch a ddylid cynnwys y cyhoedd mewn proses o'r fath, a phryd a sut i wneud hynny. Mae perygl y bydd proses sydd wedi'i chynllunio'n wael, heb bwrpas clir, yn erydu ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun Cymru lle mae ymddiriedaeth mewn sefydliadau gwleidyddol eisoes yn fregus.

Mae'r dystiolaeth ryngwladol yn tynnu sylw hefyd at yr angen am gefnogaeth drawsbleidiol i'r broses ei hun, a bod canlyniadau'r broses yn cael eu cymryd o ddifrif gan gynrychiolwyr etholedig sy'n penderfynu'n ffurfiol a ddylid mabwysiadu datganiad o'r fath ai peidio. Mewn achosion rhyngwladol (fel Gwlad yr Iâ a Chile) lle nad oes ymrwymiad a chefnogaeth wleidyddol, mae prosesau cyfansoddiadol gyda chyfranogiad pobl wedi methu.

23 Llywodraeth Cymru (2026), *Adolygiad o Dystiolaeth: Ymgysylltu â dinasyddion wrth lunio datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol a llywodraethu ar gyfer Cymru*. Wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r awdur yw Dr Alex Prior www.llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-cynnwys-dinasyddion-yn-y-gwaith-o-ddrafftio-datganiad-o-egwyddorion-cyfansoddiadol-a-llywodraethu-i-gymru

# 4. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi'r canfyddiadau sy'n deillio o waith IDAG dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi dechrau pwyso a mesur ein democratiaeth yng Nghymru, ac ystyried beth sydd ei angen i fwrw ymlaen â'n huchelgais i gael system ddemocrataidd ffyniannus yng Nghymru. Rydym wedi amlinellu blaenoriaethau, mapio'r camau nesaf, a nodi lle mae angen gwneud mwy o waith i lywio atebion posibl.

Yn ein trafodaethau, mae'r gefnogaeth eang sy'n bodoli i'r agenda hon, a'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd, wedi creu argraff arnom. Yr hyn sydd ei angen nawr yw newid sylweddol o ran uchelgais a gweithgarwch.

Un o'r themâu allweddol drwy gydol y broses fu'r angen am ddulliau cyfranogol – gweithio'n uniongyrchol gyda'r rheini y mae ganddyn nhw fudd mewn penderfyniadau ac mae penderfyniadau yn effeithio arnyn nhw, er mwyn cyd-ddylunio atebion. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau perchnogaeth a chefnogaeth ar gyfer unrhyw newidiadau a gynigir i sicrhau democratiaeth ffyniannus yng Nghymru a cham nesaf pwysig ar gyfer y gwaith hwn.

Mae dwy egwyddor yn sail i'n gwaith hyd yma, a'n huchelgais ar gyfer democratiaeth yng Nghymru. Yn gyntaf, mae cryfhau ein democratiaeth yn gofyn am feddwl y tu hwnt i ddiwygio etholiadol a chyfranogiad etholwyr. Mae diwygio sut mae democratiaeth etholiadol yn gweithio yn bwysig, ond nid yw'n ddigon, i fynd i'r afael â'r heriau democrataidd sy'n ein hwynebu, fel y nifer isel sy'n pleidleisio mewn etholiadau, llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd, a'r teimlad nad oes gan bobl lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni gael dealltwriaeth fwy cyfannol o'r system ddemocrataidd, lle mae pobl yn cael eu cefnogi i ddeall sut mae'r system honno'n gweithio a theimlo'n hyderus bod eu llais yn cyfrif.

Yn ail, mae buddsoddi mewn democratiaeth ffyniannus yng Nghymru yn ofyniad hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru. Er gwaethaf maint ac elfen barhaus yr heriau polisi a nodir yn y Cyflwyniad, mae cyfle i ni newid ein dull gweithredu yng Nghymru yn sylweddol. Mae creu partneriaeth ddilys a pharhaol rhwng pobl a'r sefydliadau democrataidd sy'n eu gwasanaethu yn greiddiol i gael gwell polisïau a gwell canlyniadau.

**Bydd agenda heriol yn wynebu Llywodraeth nesaf Cymru, a byddai gan gorff fel IDAG, neu grŵp olynol, rôl bwysig i'w chwarae o ran cynnal cynnydd a momentwm tuag at ddemocratiaeth ffyniannus yng Nghymru.**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi uchelgais clir ar gyfer democratiaeth yng Nghymru, a llwybr tuag at gyflawni hyn. Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i arwain y gwaith hwn, ac i ddod â phartneriaid ledled Cymru gyda hi, er mwyn i ni allu adeiladu system ddemocrataidd ar y cyd sy'n helpu pobl i ddeall sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, i deimlo eu bod yn gallu eu siapio, ac i weld canlyniadau gwell iddyn nhw eu hunain ac i'w cymunedau. Y dasg nawr yw bwrw ymlaen â'r uchelgais hwn a buddsoddi yn ein democratiaeth, er mwyn i Gymru allu adeiladu'r dyfodol cynhwysol, cadarn a ffyniannus sydd ei angen ar bob un ohonom ac mae pob un ohonom yn ei ddisgwyl.

# Atodiad 1

## Cylch Gorchwyl y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

1. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaethau addysg ac ymgysylltu dinesig drwy ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth i lywio'r ymateb i argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

2. Rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru a phartneriaid ar wella ymgysylltiad democrataidd yng Nghymru, gan adeiladu ar y sylfeini a ddarparwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth a llywodraeth leol ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl yn y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant, mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.

3. Darparu cyngor arbenigol mewn perthynas â gwneud mwy o ddefnydd o ddatblygiadau arloesol ym maes democratiaeth wrth ddatblygu a chyflawni polisïau ar lefelau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, o bosibl, datblygu datganiad o egwyddorion cyfansoddiadol).

4. Hyrwyddo'r defnydd o arloesi a chyfranogi ym maes democratiaeth mewn bywyd cyhoeddus, gan gynnwys drwy ymgysylltu â phartneriaid, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd yn ehangach.

5. Rhoi cyngor ar ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd / cymunedol o ymgysylltu dan arweiniad dinasyddion i wella capasiti yn y sector.

# Atodiad 2

## Aelodau'r Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

Mae'r Cadeirydd a'r aelodau wedi cael eu penodi am gyfnod hyd at wanwyn 2026, gyda phosibilrwydd o estyniad.  Mae'r grŵp yn cynnwys aelodau sydd â gwybodaeth a phrofiad perthnasol, a benodir gan y Dirprwy Brif Weinidog.

Yng ngwanwyn 2026, bydd gweithgareddau a chanlyniadau'r grŵp yn cael eu hadolygu er mwyn i lywodraeth newydd ystyried yr opsiynau ar gyfer llywodraethiant yn y dyfodol a strwythur y grŵp.

**Aelodau:**

- Dr Anwen Elias (Cadeirydd)
- Sarah Allan
- Jess Blair
- Mike Corcoran
- Dr. Tomos Dafydd Davies
- Yr Athro Sally Holland
- Yvonne Murphy
- Yr Athro Diana Stirbu
- Leanne Wood

**Ddim yn gweithredu ar hyn o bryd:**

- Julie Sangani
- Daisy Thomson

**Cyn aelodau:**

- Mo Alamgir

Mae bywgraffiadau'r aelodau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:
Aelodau: Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth | LLYW.CYMRU

# Atodiad 3

## Cyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

**2025:**

- 1 Mai
- 19 Mehefin
- 3 Gorffennaf
- 4 Medi
- 23 Hydref
- 20 Tachwedd
- 18 Rhagfyr

**2026:**

- 22 Ionawr
- 10 Chwefror
- 18 Chwefror

# Atodiad 4

## Darparwyr tystiolaeth a roddodd gyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth

- Selma Abdalla, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, Cyngor Caerdydd
- Hattie Andrews, Cyfarwyddwr, The Politics Project
- Gillian Baxendine, arbenigwr llawrydd ar gyfranogiad y cyhoedd
- Sandy Clubb, Arweinydd Polisi: Cynnwys, Cydweithredu, a Diwylliant, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Kayleigh Cowdery, Gweithiwr Ieuenctid, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Stephen Cushion, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Effaith, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd
- Yves Dejaeghere, Cyfarwyddwr Gweithredol y Ffederasiwn Arloesi mewn Democratiaeth (FIDE)
- Irenie Ekkeshis, Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr, New Citizen Project
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru Wales
- Ella Griffiths-Downing, Uwch Gynghorydd Cyfathrebu, Y Comisiwn Etholiadol
- Doreen Grove, Pennaeth Llywodraeth Agored, Llywodraeth yr Alban
- Will Hayward, newyddiadurwr llawrydd
- Tim Hughes, Arweinydd Democratiaeth a Chyfranogiad, Partneriaeth Llywodraeth Agored
- Yr Athro Emyr Lewis, cyn aelod y Panel Arbenigwyr i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
- Gareth Lewis, Golygydd Gwleidyddol, BBC Cymru Wales
- Megan Lewis, Swyddog Polisi ac Ymgysylltu, Sgowtiaid Cymru
- Jonathan Moskovic, Arweinydd Ymchwil, Sefydliad Prifysgol Ewrop ac ymgynghorydd ar arloesi democrataidd
- Yvonne Murphy, Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig, Omidaze Productions Ltd
- Shanty Neale, Swyddog Cefnogi Prosiectau a Chodi Arian, Sgowtiaid Cymru
- Arild Ohren, Uwch Arbenigwr Democrataidd, Democratic Society
- Grant Poiner, Prif Swyddog Gweithredol, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Ian Pope, Pennaeth Rhaglenni, The Politics Project
- Dr Alex Prior, Darlithydd Gwleidyddiaeth gyda Chysylltiadau Rhyngwladol, Prifysgol South Bank Llundain
- Alícia Puig, Arbenigwr Dinasoedd, Democratic Society
- Dr Melisa Ross, Ymchwilydd Ôl-ddoethurol, Prifysgol Bremen
- Senedd Cymru
- Isadrannau Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar Newid Hinsawdd, Cwricwlwm, ac Etholiadau
- Gareth Williams, cyn gadeirydd y Panel Arbenigwyr i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
- Anthony Zacharzewski, Llywydd, Democratic Society